



Canolfan Ymchwil Technoleg Gofal Iechyd Cedar

Bwletin Chwarterol

Mae Cedar wedi ymrwymo i gefnogi gofal claf-ganolog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth trwy ymchwil a gwerthuso ymyriadau iechyd, technolegau a gwasanaethau'r GIG.

Rhagfyr 2022, Rhifyn 2

YN Y RHIFYN HWN

Amdanom ni

Deall pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Newyddion Cedar

Uchafbwyntiau diweddar gan y tîm

Uchafbwyntiau'r Prosiect

Darganfyddwch pa brosiectau sydd wedi camu ymlaen yn Cedar y chwarter hwn

Arddangosfa Ffrwd Gwaith

Dysgwch am un o'r meysydd arbenigedd niferus o fewn Cedar

Sbotolau Staff

Dewch i adnabod un o dîm aml-dalentog Cedar gyda sesiwn holi ac ateb

Amdanom ni

Mae Cedar yn ganolfan ymchwil GIG-academaidd o fewn BIP Caerdydd a'r Fro wedi'i staffio gan ymchwilwyr profiadol ac amlddisgyblaethol. Mae ein meysydd arbenigedd yn cynnwys: ymchwil, gwerthuso, economeg iechyd, ac adolygiadau tystiolaeth.



Blawen Nadolig oddi wrth Tîm Cedar!

Newyddion Cedar

- ◆ Mae gennym 3 aelod o staff newydd: Huey Yi (Economegydd Iechyd), Katherine (Uwch Ymchwilydd), a Kornelia (Gweinyddwraig)
- ◆ Mae'r [treial VAP-X](#) a reolir gan Cedar wedi dechrau recriwtio cleifion yn adran UThD Ysbyty Athrofaol Cymru
- ◆ Mae Kathleen Withers, dirprwy gyfarwyddwr Cedar, wedi cyhoeddi "[QOL and PROMS in Catheter Ablation of Cardiac Arrhythmia](#)"
- ◆ Darllenwch [grynodedb gweithredol](#) ein gwaith gyda Menter Canser Moondance yn archwilio profiadau, anghenion a blaenoriaethau Cleifion Canser y Coluddyn yng Nghymru.
- ◆ Mae Cedar yn falch i weithio gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol Abertawe, mewn prosiect a gefnogir gan Crwsibl Cymru
- ◆ Mynychodd Cedar [gynhadledd ICHOM](#) yn Boston gyda chydweithwyr o [Ganolfan Gwerth Cymru mewn Iechyd](#)
- ◆ Rydym wedi derbyn y 50^{fed} ymateb i'n harolwg ar-lein [PREADAPT-Sepsis](#)



Cedar

Canolfan Ymchwil Technoleg Gofal Iechyd

Uchafbwyntiau Prosiectau

POLARIS



POLARIS

Pathway of Low Anterior Resection Syndrome relief after Surgery

Mae [POLARIS](#) yn dreial clinigol rhyngwladol i ymchwilio

triniaethau ar gyfer Syndrom Echdoriad Blaenorol Isel (SEBI/LARS). Mae SEBI yn gasgliad o symptomau y gall pobl sydd wedi cael llawdriniaeth ar eu rectwm eu profi sy'n effeithio'n negyddol ar ansawdd eu bywyd. Ariennir y treial gan yr [SCYI-ATI/NIHR-HTA](#) (£1.8 miliwn) a bydd yn cael ei arwain gan y llawfeddyg Mrs Julie Cornish (BIP Caerdydd a'r Fro). Cedar fydd yn gyfrifol am sawl rhan o'r treial. Byddwn yn cynnal yr asesiadau economaidd iechyd o gost-effeithiolrwydd y triniaethau. Byddwn hefyd yn cynnal is-astudiaeth ansoddol i ddeall profiadau cleifion o driniaethau SEBI, ac yn cynnal gwerthusiad proses i ychwanegu cyd-destun i brif ganfyddiadau'r treial.

Clinig SHE/SWAN



Mae gwerthusiad o gynllun peilot Clinig Syndrom Heb Enw (SHE/SWAN) yn cael ei gynnal gan Cedar fel rhan o'u rôl o fewn y Ganolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru (CGmIC). Nod y gwerthusiad yw asesu effeithiolrwydd clinigol a gwerth Clinig SHE o

Ran profiad a chanlyniadau cleifion. Cyflawnir hyn trwy arlygon cleifion (gan gynnwys Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (MCAGau/PROMs) a Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion (MPAGau/PREMs)), a chyfweiliadau â chleifion, aelodau o'u teuluoedd a'u gofawlyr, a staff. Dysgwch fwy am y clinig SHE yn yr [erthygl hon gan Newyddion y BBC](#).

Optilume

Mae Cedar yn falch o fod wedi cyfrannu at ganllawiau NICE a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Optilume ar gyfer trin cyfyngau wrethrol bylbar rheolaidd. Balwn wrethrol wedi'i gorchuddio â paclitaxel yw Optilume sy'n ymledu i ehangu'r culhad a danfon paclitaxel i'r meinwe wrethrol, gyda'r nod o atal twf meinwe newydd a lleihau ffurfiant craith. Penderfynodd pwyllgor NICE, er bod Optilume yn ymddangos yn effeithiol yn y tymor byr, bod angen mwy o ymchwil ar y canlyniadau hirdymor. Gellir gweld yr argymhellion llawn yma: [Canllawiau Technolegau Meddygol NICE ar gyfer Optilume](#).

Sbotolau Staff

Yn y rhifyn hwn o Sbotolau Staff, rydym yn siarad â Dr Michal Pruski:

Dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi a'ch rôl

Rwy'n hyfforddai HSST mewn Gwybodeg Iechyd a rhannais fy amser rhwng Cedar a gwneud rhywfaint o waith clinigol yn yr Adran Ffiseg



Feddygol ond pan fyddaf yn Cedar byddaf naill ai'n rhoi help llaw gyda rhywfaint o waith MCAGau neu gydag adolygiadau llenyddiaeth.

Pa 3 gair fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio Cedar?

Academaidd, hamddenol, hyblyg.

Dywedwch wrthym am rywbeth yr ydych yn arbennig o falch ohono.

Bod yn dad. Ond os ydych yn gofyn am rywbeth mwy cyffrous yna darbwyllo gyrrwr bws nad yw ar ddyletswydd mewn gŵyl fawr i fynd â'm cydweithiwr, fi, ein claf a'u cyfaill i'r ysbyty maes oherwydd ein bod allan o ambiwlansys a modd o'u rheoli'n effeithiol yn y fan a'r lle.

Dewiswch archbŵer.

Deuleoli - gallai adael i mi fod yn y gwaith ac ar ylliau ar yr un pryd!

Beth sy'n ffaith amdanoch chi y byddai pobl yn synnu ohoni?

Bod gen i genedligrwydd triphlyg ond ni chefais fy ngeni yn yr un o'r gwledydd hyn.

Arddangosfa Ffrwd Gwaith - Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru

Mae Dirprwy Gyfarwyddwr Cedar, Kathleen Withers, yn trafod rôl Cedar yn cefnogi CGmIC:

Mae gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn canolbwyntio ar ddarparu'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl, gyda'r adnoddau sydd ar gael. Gallwn wneud hyn drwy gynnwys cleifion yn y broses o wneud penderfyniadau, a gofyn iddynt beth sy'n bwysig iddynt drwy ddefnyddio offer megis Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Gleifion (MPAGau).

Mae Cedar yn bartner allweddol i [CGmIC](#) ac rydym yn arwain y gweithgaredd ymchwil a gwerthuso ar gyfer y rhaglen yn ogystal â darparu gallu dadansoddol gydag allbynnau gan gynnwys adroddiadau, cyflwyniadau a chyhoeddiadau. Rydym hefyd yn darparu cyngor ar ddewis a thrwyddedu MPAGau ac yn arwain cyfieithu MPAGau i'r Gymraeg. Mae ein gwaith gyda rhanddeiliaid megis cleifion, y cyhoedd a thimau clinigol yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau yng Nghymru.



I siarad â'r tîm am eich prosiect, cysylltwch â ni neu llenwch ein

[Ffurflen Gais am Gefnogaeth](#)